PWYLLGOR PENODI A

DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

PRESENNOL Cynghorydd D Price (Cadeirydd – yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	H.A.L. Evans	L.D. Evans
N. Evans	P.M. Hughes	P. Hughes-Griffiths	R. James
G.H. John	D. Jones	A. Lenny	E.G. Thomas

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

K. Madge	A. Vaughan Owen

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
H. Daniels, Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol
S. Dougherty, Ymgynghorydd Dylunio Trefniadaeth
A. Machin, Rheolwr Dysgu a Datblygu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 1.30 - 4.30 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Cundy, S. Curry, A. Davies, G. Davies a H. Shepardson.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION A GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 MAI 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 1 Mai, 2019, gan eu bod yn gywir.

4. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU)

2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.

P**ENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.**

5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR 26 MEDI 2022

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 26 Medi 2022.

6. GWYBODAETH CAIS

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, derbyn y wybodaeth ymgeisio a ddosbarthwyd gyda'r agenda ar gyfer y cyfarfod.

7. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDD CYFARWYDDWR LLE A SEILWAITH AC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD.

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Amlinellwyd i'r Pwyllgor y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai tri o'r pump ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y tri ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau. Yn dilyn trafodaeth -

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL BENODI A. Williams yn Gyfarwyddwr Lle a Seilwaith

[Galwyd A. Williams yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd ei fod yn derbyn y swydd.]

CHAIR **DATE**